

Eitem: 14

Teitl: Adroddiad diweddariad risg

Gweithredu/Action required	Ar gyfer sylwadau a sicrwydd
Amseru/Timing	Adrodd arferol
Argymhelliad/Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad diweddariad risg yma ar gyfer sicrwydd a gwybodaeth. Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn darparu dadansoddiad o weithgarwch a gwybodaeth am y rhwydwaith o gofrestrau risg ac yn arbennig y risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol. Mae'r dull hwn yn parhau i fod yn cael ei adeiladu arno er mwyn darparu gwybodaeth bellach am newidiadau a thueddiadau lle maent yn ofynnol. Fodd bynnag, disgwylir bod y dangosfwrdd, pan fydd wedi'i gwblhau'n derfynol, yn darparu'r wybodaeth honno'n uniongyrchol ar un dudalen. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti yn ystod y misoedd diwethaf nid yw'r dangosfwrdd wedi symud ymlaen ymhellach, ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.
Risg/Risk	Gallai methu â dal a rheoli ein risgiau sefydliadol arwain at ganlyniadau yn y tymor byr a'r tymor hir i Llais.
Cyllid/Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn ac eithrio'r risgiau hynny sy'n cwmpasu materion ariannol neu sydd ag elfennau buddsoddi cysylltiedig.

Amcan cynllun blynyddol/Annual plan objective Amcan cynllun strategol/ Strategic plan objective	Mae ein prosesau risg yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd, pwyllgorau, Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain bod yr holl risgiau strategol a gweithredol/ffwythiannol wedi eu hadnabod a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r sefydliad yn parhau i ddal a chynnal cofrestr risg gorfforaethol a chyfres o gofrestrau risg rhanbarthol ac sy'n seiliedig ar ffwythiant. Mae'r gwaith ar reoli risg yn ffurfio rhan o'n trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn unol â'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a chyflawni'r Cynllun Blynyddol a darperir trosolwg gan y Tîm Gweithredol. Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd rôl allweddol ar ran y Bwrdd yn craffu ar yr agwedd sefydliadol at risg a chynghori ynghylch datblygiad parhaus agwedd y sefydliad at reoli risg. Mae'r pwyllgor wedi adolygu'r diweddariad ynghylch risg ddiwethaf yn ei gyfarfod ar 2 Medi 2026.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw faterion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn, ond gallai fod nodweddion ym mhob risg.
Cyfathrebu/ Communications	Ticiwch y blychau perthnasol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒

	Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☐ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth/Approval/Clearance	Prif Weithredwr.
Trafodaethau neu benderfyniadau blaenorol/Previous discussions or decisions	Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o waith datblygu parhaus mewn ymateb i'r strategaeth rheoli risg a'r risgiau sefydliadol a gweithredol/ffwythiannol. Mae'n nodi'r gwaith asesu risg parhaus a ymgwymerwyd drwy'r Tîm Gweithredol i adnabod prif risgiau peidio â chyflawni'r Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd.
Awdur Cyflwyno/Author/presenting	Richard Bevan, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Dyddiad/Date	12 Hydref 2026
Cefndir/Background a Manylion/ Detail	
Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ran y Bwrdd wedi cymryd rhan mewn gwaith datblygu ar reoli risg dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfres o risgiau o gofrestrau risg perthnasol hefyd yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Tâl a Thelerau Gwasanaeth. Mae'r Tîm Gweithredol yn darparu trosolwg o ddydd i ddydd o'r system risg a'r cofrestrau risg ac yn ystyried y gofrestr risg gorfforaethol yn fisol mewn cyfarfodydd Tîm Gweithredol. Mae arweinwyr gweithredol unigol yn cadw'r risgiau maent yn eu harwain dan sylw, yn awgrymu risgiau newydd, ac yn awgrymu uwch gyfeirio risgiau, lle maent eu hangen neu fel sy'n briodol o'u meysydd gweithredol a ffwythiannol. Mae'r Tîm Gweithredol wedi asesu bod y proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn sefydlog i bob pwrpas, ond ei fod yn uwch mewn rhai meysydd. Mae'r ardaloedd mwyaf arwyddocaol o amlygiad yn parhau i fod yn berthnasol i gapasiti sefydliadol, dysgu a datblygu'r gweithlu, llywodraethu gwybodaeth/gwytnwch digidol a chyflawni blaenoriaethau strategol gyda'r adnoddau sydd ar gael. Er bod rheolau'n parhau i ddatblygu, mae nifer o risgiau'n parhau i fod uwchben y parodrwydd targed ac maent angen sylw rheoli parhaus.	

Mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn edrych ar sut ddylai adroddiadau wahaniaethu rhwng cwblhau gweithredoedd a chyflawni deilliannau. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn ceisio egluro pa elfennau gweddillol o amlygu sy'n parhau, pa ffactorau penodol sy'n atal lleihad mewn sgôr risg, a pha dystiolaeth fyddai'n cefnogi ailasesu yn unol â'r parodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno. Rydym yn cydnabod bod gwahaniaeth rhwng gweithgarwch a sicrwydd. Gan hynny, bydd adroddiadau yn y dyfodol yn rhoi mwy o bwyslais ar geisio arddangos effeithiolrwydd rheoliadau a rhoi tystiolaeth o draweffaith mesurau lliniaru yn hytrach na dim ond adrodd ar gwblhau gweithredoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn parhau i ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y bwrdd a'r pwyllgorau ynghylch adrodd. Fel yr awgrymwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod diwethaf, rydym yn parhau i geisio symleiddio'r arddull adrodd. Yn yr adroddiad hwn, yn hytrach na darparu'r gofrestr risg fanwl, a'r holl fanylion technegol ar y gofrestr, mae'r risgiau felly wedi'u crynhoi yn rhan o adroddiad trosolwg. Mae'r trosolwg hwn yn ceisio darparu themâu'r risgiau, lefelau, asesiadau o'r risg a rhai o'r camau gweithredu diweddar sydd ar waith er mwyn ceisio lleihau'r risgiau. Mae'r gofrestr risg fanwl yn parhau i gael ei chyfrannu ati a'i chraffu arni ar ran y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn dilyn sicrwydd rhesymol a dderbyniwyd gan adroddiad archwiliad mewnol yn gynharach yn y flwyddyn, mae'r cynnydd positif yn parhau i gael ei gynnal. Fodd bynnag, yn ddiweddar oherwydd problemau capasiti mae cwblhau risg corfforaethol integredig a risgiau rhanbarthol a ffwythiannol i un fformat adrodd wedi'i ohirio. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn y misoedd sydd i ddod ochr yn ochr â threfnu gweithdy risg pellach yn dilyn llwyddiant gweithdy lefel risg y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026.

Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf, yn dilyn awgrym y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae gwaith pellach wedi'i gwblhau ar drosolwg o broffiliau risg twyll a gwrth-dwyll i Llais. Cawsant eu cyflwyno i'r pwyllgor ar ddechrau mis Medi. Cytunwyd bod y risgiau twyll ac atal twyll yma a'r gweithgaredd presenol yn y meysydd hyn yn cael eu hintegreiddio i mewn i gofrestrau risg strategol a gweithredol/ffwythiannol e.e. y gofrestr risg gorfforaethol, materion llywodraethu, cyllid a chaffael, gweithlu a phobl, a chofrestrau risg digidol a TG.

Proffil risg

Mae proffil risg Llais yn darparu trosolwg o'r risgiau a'r bygythiadau posib presennol i gyflawniad a ffwythiant rolau a chyfrifoldebau'r sefydliad, y traweffaith posib ar gyflawni ein cynlluniau fel y'u datganwyd a hefyd mae'n darparu canllawiau er mwyn helpu dewisiadau buddsoddi, penderfyniadau strategol a dulliau sefydliadol.

Gall y proffil risg newid yn rheolaidd a bod yn broses ddeinamig gan fod ei rhannau cydrannol h.y., cofrestrau risg yn cael eu diweddarau a'u hasesu'n fisol. Mae'r ystyriaethau risg hefyd yn elfen allweddol o'n cynllunio, datblygu strategaeth ac adrodd ar sicrwydd blynyddol.

Gweler isod am ddadansoddiad o broffil cyfredol cofrestrau risg sefydliadol sy'n dynodi lle mae newidiadau wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf. Yn y dyfodol, bydd yr adroddiad hwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth bellach am dueddiadau, ond rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy'r dangosfyrddau.

Cofrestr risg corfforaethol - Medi 2026

Ar 30 Medi 2026 roedd cyfanswm o 21 o risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol. Mae crynodeb o'r risgiau hyn wedi'u hamlinellu isod:

- 2 risg gyda sgôr o 20 ac uwch (risgiau critigol uchel iawn)
- 6 risg gyda sgôr o 13 - 18 (risgiau defnydd uchel)
- 11 gyda sgôr o 5 - 12 (risgiau y gellir eu rheoli'n gymedrol)
- 2 risg gyda sgôr o 1 - 4 (risgiau dibwys isel)

Proffil gweithgaredd:

Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae 2 faes risg newydd wedi'u hychwanegu at y gofrestr risg gorfforaethol. Y rhain yw:

- **lechyd a Diogelwch** - Mae hyn wedi'i asesu fel bod â sgôr o 10. Mae'n nodi'r risg os yw Llais yn methu â chynnal trefniadau iechyd, diogelwch a lles effeithiol ar draws y sefydliad, y gallai arwain at niwed i staff, gwirfoddolwyr, ymwelwyr neu'r cyhoedd, diffyg

cydymffurfriad cyfreithiol neu reolaethol, niwed i enw da, ac amhariad ar ddarparu gwasanaeth.

- **Methu â diogelu pobl** - Mae hyn wedi'i asesu i fod â sgôr o 15. Mae'n amlinellu'r risg os yw Llais yn methu ag adnabod, ymateb, rheoli neu uwchraddio pryderon ynghylch diogelu sy'n berthnasol yn briodol i'r bobl rydym yn eu gwasanaethau a thrwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion. Mae hefyd yn ffocysu ar ein gwirfoddolwyr, staff neu aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgysylltu gyda'r sefydliad.
- Cafodd 3 risg eu cynyddu yn ystod y cyfnod diwethaf:
 - **Mae gweithrediad Digidol a TG** wedi cynyddu o sgôr o 12 i sgôr o 15, er mwyn adlewyrchu'r lefel o ddibyniaeth sefydliadol ar ddarpariaeth ddigidol. Mae datblygiad pellach gofynnol o'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid wedi symbylu cynnydd yn y risg yma.
 - **Trefniadau darparwr gwasanaeth partneriaeth allweddol** - mae'r risg hwn wedi cynyddu o sgôr o 12 i sgôr o 16 oherwydd yr adolygiad cytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaethau a Rennir y GIG sydd wedi'u cwblhau, ond nid yw Gwasanaethau a Rennir y GIG wedi cadarnhau dyddiad cymeradwyo ar gyfer y cytundeb. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau a ddarperir i Llais yn parhau i fod heb eu heffeithio arnynt yn ystod y cyfnod hwn.
 - **Ymgysylltiad aneffeithiol gyda Llywodraeth Cymru newydd ac Aelodau o'r Senedd** - Mae'r risg hwn wedi cynyddu o sgôr o 12 i sgôr o 16, oherwydd bod disgwyliadau cynyddol yn cael eu gosod ar Llais gan y llywodraeth newydd. Mae hyn yn gydnabyddiaeth bositif, ond mae'n achosi gofynion ychwanegol, ystyriaethau capasiti a'r angen am ail-flaenoriaethu mewn rhai meysydd.
- Cafodd 2 risg eu lleihau yn ystod y cyfnod diwethaf:
 - Mae **methiant systemau** wedi lleihau o sgôr o 20 i sgôr o 15, yn dilyn gwaith parhaus ar gwblhau cytundebau lefel darparwyr gwasanaeth, prosesau cefnogaeth TG, cynllunio parhad busnes, trefniadau cyfathrebiadau mewn argyfwng, gwiriadau iechyd TG a chwblhau'r rhaglen ymwybyddiaeth gwe-rwydo.

- Mae **gwytnwch seiber** wedi gostwng o sgôr o 20 i sgôr o 12, er mwyn adlewyrchu'r rheolaethau seiber a atgyfnerthwyd, gan gynnwys mynediad at ddyfeisiadau sy'n cydymffurfio, dilysu amlffactor, amgryptio, Microsoft Entra misol ac adolygiadau cynnal cyfrifon, gwaith patsio, cyflawni Cyber Essentials Plus, hyfforddiant seiber blynyddol wedi'i gynnal, ymarferion gwe-rwydo, prosesau adrodd am ddigwyddiadau a rheolaethau e-bost/diogelwch awtomatig. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r gwaith gweithredol i sicrhau achrediad IASME a chwblhau'r holiadur diogelwch yn ddiweddar ar gyfer Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd ym mis Medi.
- Ni chafodd unrhyw risgiau eu cau.

Trosolwg o'r proffil risg presennol o'r gofrestr risg corfforaethol:

	Thema'r risg	Sgôr
Risgiau Uchel iawn	Trefniadau dysgu a datblygu Risg y gallai maint y dysgu a datblygu gofynnol ar draws Llais fynd y tu hwnt i'r capasiti presennol, gan arwain at ohiriadau yn ei roi ar waith, dealltwriaeth anghyson o rolau a systemau, a llai o hyder wrth gyflawni. Mae hyn yn parhau i fod yn un o risgiau presennol uchaf Llais - er bod strategaeth a pholisi dysgu a datblygu newydd wedi'u datblygu. Mae angen gwaith pellach wrth eu rhoi ar waith ac ymgysylltu yn eu cylch.	20
	Aelodaeth a Chyfansoddiad y Bwrdd Nid yw'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gywir yn unol â'r ddeddfwriaeth a'i orchmynion sefydlog ei hun, ac felly nid yw'n gallu gwneud y penderfyniadau sy'n angenrheidiol gan y Bwrdd. Mae'r risg hwn wedi'i uwchgyfeirio o'r gofrestr risg llywodraethu oherwydd y swyddi gwag y dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Anweithredol a'r traweffaith posibl ar ffwythiant y Bwrdd a'i allu i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r rôl dirprwy gadeirydd wedi'i hysbysebu ac mae camau olaf y trefniadau recriwtio a chyfweld yn symud yn eu blaen.	20

Risgiau Uchel	Ymgysylltiad aneffeithiol gyda Llywodraeth Cymru newydd ac Aelodau'r Senedd: Mae yna risg na fydd Llais yn gallu ymgysylltu'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru sydd newydd ei ffurfio, a charfan sydd wedi cynyddu'n sylweddol o Aelodau Senedd newydd, gan arwain at ddealltwriaeth gyfyngedig o rôl annibynnol Llais ac egwyddorion y bobl. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth ddiweddar fod y risg hwn yn lleihau drwy ddigwyddiadau'r Senedd, megis 'Gofal ar ba gost?' a'r dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd.	16
	Trefniadau darparu gwasanaeth partneriaeth allweddol Mae yna risg o fethu â chytuno ar lefelau darpariaeth gwasanaeth gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti y mae systemau a ffwythiant Llais yn dibynnu arnynt. Mae'r maes risg hwn wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf yn dilyn y gwaith adolygu sydd wedi'i gwblhau ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth Gwasanaethau a Rennir y GIG ar gyfer Llais, gan bod disgwyl o hyd am gymeradwyaeth gan Wasanaethau a Rennir y GIG. Fodd bynnag, mae ffwythiannau a systemau yn parhau i fod heb eu heffeithio arnynt.	16
	Methiant systemau Risg colli seilwaith TG hanfodol a systemau eraill, gan gynnwys cysylltedd rhwydwaith a allai arwain at amariadau gweithredol, darpariaeth gwasanaeth wedi'i gohirio a diffyg gallu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn wedi lleihau o 20 i 15 ers adroddiad diwethaf y Bwrdd oherwydd y cynnydd a wnaed, sydd wedi'i adrodd arno yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu trefniadau parhad busnes systemau a threfniadau TG Llais.	15
	Argaeledd cyllid ac adnoddau Risg na fydd gan Llais ariannu digonol na sicrwydd ynghylch ei ariannu er mwyn cyflawni ei gylch gorchwyl a blaenoriaethau, gan gynnwys seilwaith, costau staff a chostau gweithredol. Mae'r risg wedi cynyddu'n ddiweddar o 12 i 16 er mwyn adlewyrchu'r	15

	sefyllfa ariannol bresennol a thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru.	
	Ein pobl - lefelau salwch a lles Mae yna risg i ddarparu ein gwasanaethau os oes lefelau uchel o salwch staff a lefelau is o les staff yn cael eu hadrodd. Mae lefelau salwch wedi parhau i fod uwchben y lefelau targed am nifer o fisoedd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad diweddaraf ar gyfer mis Medi 2026 yn dynodi bod y lefelau'n lleihau o ganlyniad i reoli gweithredol ar draws y sefydliad.	15
	Methu â Diogelu Pobl sy'n Ymgysylltu gyda Llais Mae yna risg bod Llais yn methu ag adnabod, ymateb neu uwchgyfeirio pryderon ynghylch diogelu sy'n berthnasol i'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu a thrwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, gwirfoddolwyr, staff neu aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgysylltu gyda'r sefydliad. Gallai hyn arwain at niwed i unigolion, methu â bodloni cyfrifoldebau statudol, colli hyder y cyhoedd, niwed i enw da, craffu rheolaethol, her gyfreithiol a lleihad mewn hyder gan randdeiliaid a phartneriaid. Fodd bynnag, mae'r polisi Diogelu wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar a chodi ymwybyddiaeth wedi'i ddarparu ar draws Llais. Hefyd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi ymgymryd â sesiwn sicrwydd ychwanegol yn ddiweddar ar y thema hon.	15
	Gweithrediad digidol a TG Mae yna risg y gallai gweithredu systemau TG, gan gynnwys ardystiad diogelwch, platfformau digidol a phrosiectau arloesi, wynebu heriau a allai ohirio darpariaethau, amharu ar weithrediadau, ac effeithio ar ein hamcanion. Mae'r cynnydd a wnaed wedi'i adrodd arno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae gwaith yn parhau ar system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a fframwaith polisi'r sefydliad.	15
Risgiau Cymedr	Traweffaith ariannol ar ddarpariaeth yn gysylltiedig gyda phobl a sgiliau Mae yna risg na fydd Llais yn gallu darparu'n effeithiol yn erbyn ei gylch gorchwyl a chaffael neu gadw arbenigedd a'r gymysgedd o	12

	sgiliau gofynnol mewn meysydd allweddol oherwydd lefelau cyllideb blynyddol a phwysau ariannol.	
	Galw annisgwyl/ansicrwydd ynghylch y galw am wasanaethau a chefnogaeth Llais Mae yna risg y bydd Llais yn profi galw sylweddol nas cynlluniwyd gan y cyhoedd neu randdeiliaid, a allai fynd y tu hwnt i'n capasiti, ac arwain at bwysau o ran adnoddau neu fethu â darparu gwasanaethau.	12
	Goblygiadau statudol Mae yna risg o ddiffyg eglurder a dealltwriaeth o gwmpas a rhychwant goblygiadau statudol ar gyfer Llais. Gall hyn effeithio ar ein goblygiadau cyfreithiol a rheolaethol ehangach.	12
	Gwynwch seiber Mae yna risg o ymosodiadau seiber a bygythiadau posib i'n swyddogaethau hanfodol a allai arwain at golli data, niwed i enw da, a methiannau o ran cydymffurfio. Mae Cyber Essentials Plus wedi'i gyflawni, ac mae ardystiad IASME yn gyflawn i bob pwrpas. Cwblhawyd asesiad sefydliad cyfan er mwyn cefnogi cyflwyno'r holiadur diogelwch a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.	12
	Iechyd a Diogelwch Gallai methu â chynnal trefniadau iechyd, diogelwch a lles effeithiol ar draws Llais arwain at niwed i staff, gwirfoddolwyr, ymwelwyr neu'r cyhoedd, diffyg cydymffurfiaeth gyfreithiol neu reolaethol, niwed i enw da, ac amhariad ar ddarparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n codi o asesiadau risg rhanbarthol anghyson, trefniadau gweithio'n unigol, cydymffurfio gyda hyfforddiant, mynediad at ddiweddariadau rheolaethol, a goruchwyllo rheolaethau iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, mae gwaith gweithredol yn cael ei ddwyn ymlaen yn y meysydd hyn gydag asesiadau a datblygu dull polisi a chyfathrebu newydd drwy'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol.	10

Gwranddo ar ofynion statudol Pobl Mae yna risg y gallai'r newidiadau sy'n codi o weithredu gofynion statudol Gwranddo ar Bobl newydd ym mis Ebrill 2026 beidio â chael eu rhoi ar waith yn effeithiol neu'n gyson ar draws Llais a'r system ehangach. Mae ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth yn parhau drwy drefniadau gweithredol.	9
Gwirfoddolwyr - recriwtio a datblygu Mae yna risg na fydd Llais yn gallu recriwtio a chadw gwirfoddolwyr. Gall hyn lesteirio ein gallu i gyflawni ein gwaith led-led Cymru. Mae yna hefyd risg y gallem golli gwirfoddolwyr sy'n bodoli ar hyn o bryd a chael llai o gapasiti i ymgysylltu gyda chymunedau. Mae gwaith datblygu'n cael ei ddwyn ymlaen yn y maes hwn drwy arweinyddiaeth strategol.	9
Cysondeb o ran cyfathrebu Mae yna risg o fethu mynd i'r afael â deilliannau cyfathrebu'n gyson, a rhannu mewnwelediadau ar draws Llais. Gall hyn arwain at golli ymddiriedaeth, llai o hyder gan y llywodraeth a phartneriaid, a chyfleoedd wedi'u colli i ddylanwadu ar wella gwasanaeth ar ran pobl Cymru. Fodd bynnag, mae ystod o ddatganiadau cenedlaethol wedi'u cyhoeddi yn y misoedd diwethaf ar amrywiaeth o themâu gyda gweithgaredd proffil uchel parhaus drwy'r cyfryngau cymdeithasol a phodlediadau. Mae gwefan newydd Llais hefyd wedi'i lansio.	9
Strategaeth swyddfa a lleoliad Llais Mae yna risg na fydd swyddfeydd a gwasanaethau Llais yn hygyrch i holl bobl Cymru oherwydd mynediad corfforol a lleoliadau daearyddol a allai effeithio ar ein darpariaeth. Mae'r risg hwn wedi lleihau'n ddiweddar o 12 i 8 oherwydd y gwaith ychwanegol yr ymgwymerwyd ag o er mwyn sicrhau swyddfeydd rhanbarthol newydd ar gyfer rhanbarthau Powys a Gwent.	8

	Diwylliant sefydliadol Mae yna risg os nad yw Llais yn gallu sefydlu diwylliant cyffredin a ffyrdd safonol o weithio y gallant effeithio ar allu Llais i gyflawni'n effeithiol yn erbyn ein cylch gorchwyl. Mae gwaith yn y maes hwn yn parhau ac mae'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Tâl a Thelerau Gwasanaeth.	6
Risgiau Isel	Disgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid Mae yna risg na fydd aliniad o ran disgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyda rôl, ffwythiant a phwerau Llais. Gall hyn arwain at gamddeall ein cyfrifoldebau eiriolaeth, ymgysylltu a chynrychioli.	4
	Cysylltiadau gyda phartneriaid Mae yna risg o brofi anhawster wrth roi newidiadau ar waith i gysylltiadau oedd yn bodoli eisoes gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys creu cysylltiadau newydd gyda rhanddeiliaid. Gallai hyn arwain at gamddeall pwrpas Llais a'n hatal rhag cyflawni ein ffwythiannau'n llwyddiannus	3
Cofrestrau rhanbarthol a ffwythiannol – trosolwg Fel y gwelwyd o 30 Medi 2026 mae cyfanswm o 98 o risgiau ar draws y rhwydwaith o gofrestrau risg rhanbarthol a ffwythiannol, sy'n cael eu hadolygu'n fisol, gan yr arweinwyr risg a'r Rheolwr Llywodraethu a Risg. Mae hyn wedi gweld cynnydd yn y cyfnod hwn o'i gymharu gyda'r 89 o risgiau blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith parhaus i adnabod risgiau, heriau'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a'r amgylchiadau tywydd eithafol a gafwyd yn ystod yr haf. Mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn monitro'r gofrestr risg gorfforaethol a phroffil risgiau sefydliadol mewn cyfarfodydd monitro misol. Mae'r arweinwyr risg gweithredol hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn monitro risgiau yn ddyddiol gyda'u timau perthnasol. Amlinellir crynodeb o broffiliau risgiau ar draws y cofrestrau rhanbarthol a ffwythiannol isod:		

- 14 risg gyda sgôr o 20 ac uwch (risgiau critigol uchel iawn)
- 10 risg gyda sgôr o 13 - 18 (risgiau ymarferol uchel)
- 55 risg gyda sgôr o 5 - 12 (risgiau o reolaeth gymedrol)
- 19 risg gyda sgôr o 1 - 4 (risgiau isel bach iawn)

Er bod y Tîm Gweithredol yn cydnabod bod nifer o risgiau rhanbarthol a ffwythiannol yn parhau i gael eu hasesu yn uchel ac uchel iawn, mae'r rhain wedi bod yn amodol ar adolygiad drwy'r fframwaith rheoli risg sefydliadol. Ein hasesiad yw eu bod yn cael eu rheoli'n briodol ar lefel leol ac nad ydynt ar hyn o bryd angen cael eu huwch gyfeirio i'r gofrestr risg gorfforaethol. Bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei hadolygu drwy brosesau adolygu risg rheolaidd.

Yn gyffredinol, mae ymgysylltiad parhaus wedi parhau gydag arweinwyr risgiau ond mae wedi'i effeithio arno gan fod Rheolwr Llywodraethu a Risg newydd wedi'i recriwtio er mwyn cymryd lle deiliad y swydd sydd ar absenoldeb mamolaeth. Cyn gynted ag y bydd cydweithiwr newydd yn y swydd, bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal er mwyn trafod sgoriau risgiau, atgyfnerthu aliniad gyda'r parodrwydd i dderbyn risg, a symleiddio'r naratifau risg er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae datblygiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer y chwarter nesaf, yn arbennig felly o safbwynt olrhain tueddiadau a'r cynlluniau ar gyfer y dangosfwrdd yn yr ail weithdy risg.

Argymhellion/ Recommendation

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad risg hwn sy'n darparu asesiad o'r prif risgiau ar gyfer y sefydliad yn dilyn gwaith craffu manwl gan y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nodwch yn ogystal y datblygiadau pellach a gynlluniwyd o ran adrodd am risgiau h.y., cwblhau dangosfyrddau adrodd, gwybodaeth olrhain ychwanegol ar dueddiadau a'r cyswllt gyda'r adolygiad parodrwydd i dderbyn risg drwy weithdy lefel Bwrdd.